

Trydan Tal-y-bont

Yn ystod yr wythnosau diwethaf bûm yn clirio cwt bychan yng nghornel isaf y Wern. Yno mae Olwyn Pelton a deinamo mawr; y deinamo wedi dod o Gilfynydd, wedi ei brynu yn ail-law o un o'r pyllau glo. Bu Wyndham Morris yn dweud wrthyf nad oedd ef a David John y glo wedi disgwyl y byddai mor fawr a thwm; yn ormod i'r lorri fregus a'r teiars tenau. Bu'n siwrne hir a gofidus yn ôl i Dal-y-bont.

Cefais ragor o hanes dyfodiad y trydan i Dal-y-bont gan Mrs Valma Jones. Mae'r stori yn cychwyn ym Methel pan gyhoeddodd blaenor ei bod hi'n bryd cael gwared â'r lampau olew aneffeithiol a chael rhai nwy, fel yr oedd ganddo ef, (nwy carbeid fel a geid mewn lampau beic ers talwm).


'Na', meddai Mr Lewis Morris, perchennog y Ffatri Wlân, 'trydan yw'r peth diweddaraf a gwell o lawer.' Pan ofynnodd rhywun sut oedd cael trydan, meddai Mr Morris, 'Fe roddaf fi drydan i chi.' Ac felly y daeth 8, New Street, cartref y Morrisiaid ac Eglwys Bethel i fod y lleoedd cyntaf i gael cyflenwad o drydan yn

Electricity for Tal-y-bont

During the past few weeks, I have been clearing out a small hut in a corner of the Wern where there is a Pelton Wheel and a large dynamo. The dynamo, which came from Cilfynydd, had been bought second hand from one of the coal mines. Wyndham Morris told me that he and David John, the coal did not expect it to be so large and heavy; too heavy a load for the little lorry with its narrow tyres. It was a long and anxious journey back to Tal-y-bont.

Mrs Valma Jones told me more about how electricity came to Tal-y-bont. The story starts at Bethel when a deacon announced that it was time to do away with the ineffective oil lamps and replace them with gas ones, such as he had, (carbide gas as in bicycle lamps in the old days).

'No', said Mr Lewis Morris, the owner of the woollen factory, 'electricity is the latest thing and it is far better.' When someone asked how electricity could be obtained, Mr Morris said, 'I shall provide you with electricity.' And thus 8 New Street and Bethel Chapel became the first places in Tal-y-



Y Deinamo.

The Dynamo.

Nhal-y-bont a'r cyntaf yn ardaloedd cefn gwlad Ceredigion.

Ymhen amser dosbarthwyd trydan i oleuo'r stryd, y neuadd a thai yn y pentref. Y dŵr a oedd yn troi olwyn mawr y ffatri oedd hefyd yn cynhyrchu'r trydan ar y pryd ond, fel yr oedd y gofynion yn cynyddu, yr oedd yn rhaid cael rhagor o beiriannau.

Daeth y deinamo i'r cwt bach yn y Wern a bu'n gweithio o ganol y tridegau hyd nes y daeth Manweb â thrydan i'r pentref yn 1948.

Mae gennyf gof am y deinamo'n gweithio a'i sŵn i'w glywed o gryn bellter yn mhob cyfeiriad. Byddai pentrefwyr heddiw wedi protestio'n groch ond, i ni, er gwaethaf y sŵn, gwelliant mawr ydoedd yn enwedig yn nhwllwch gaef.

Yr oedd y tai a'r stryd yn cael golau tan tua hanner awr wedi deg pan fyddai Mr Morris yn diffodd y golau stryd gan ddweud, 'Mae nhw wedi cael digon yn awr – mae'n amser iddynt fynd i'w gwelyau.'

Pan ddaeth y cwmni mawr i'r ardal collodd Mr Morris ran helaeth o'i fywoliaeth ond ni chafodd o yr un geiniog o iawndal. Yr ateb chwerthinllyd gafodd ei gais oedd, 'Nid ydym yn eich rhwystro rhag gwerthu trydan – cariwch ymlaen!'

Bwriedir rhoi to i'r cwt bach fel bo'r cwbl yn cael ei gadw fel ag y mae gan ei fod yn rhan o hanes y pentref.

D.E. Griffiths
Papur Pawb, Ebrill 2000

bont to have electricity – indeed the first in rural Ceredigion.

In due course electricity was provided for street lighting, the hall and the houses in the village. The water which turned the large wheel at the factory produced the electricity at the outset, but as demand increased, more machinery was required.

The dynamo arrived at the small hut at the Wern and it continued to work from the mid thirties until Manweb supplied electricity for the village in 1948.

I can recall the dynamo working and its noise could be heard for some distance in all directions. Villagers today would have protested loudly, but for us, despite the noise it was a great improvement, especially during the dark winters.

The houses and street were lit until half past ten at night, when Mr Morris switched off the light saying, 'They have had enough now – it is time for them to go to bed.'

When the large electricity company came to the area Mr Morris lost a substantial part of his livelihood but he did not receive a penny in compensation. The ridiculous response to his request was, 'We are not preventing you from selling electricity – carry on!'

It is intended to put a roof over the hut so that all is kept intact as it is a part of village history.

D.E. Griffiths
Papur Pawb, April 2000